

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r cyflwyniad hwn i ystadegau'n pwysleisio ochr ymarferol y pwnc, ond caiff yr egwyddorion damcaniaethol eu cynnwys hefyd. Defnyddir MINITAB a meddalweddau eraill a gyflenwir gyda'r modiwl i ddadansoddi data a datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o gysyniadau ystadegol. Mae'r modiwl yn cwmpasu dulliau archwiliadol ar gyfer dadansoddi data, modelau ar gyfer data, amcangyfrif, cyfyngau hyder, profi damcaniaethau, atchweliad a dwy broblem newidiol. Tybir bod gan fyfyrwyr gymhwysedd mathemategol ar y lefel a ddatblygwyd gan *Mathemateg hanfodol* (MST124) neu ei ragflaenydd Defnyddio Mathemateg (MST121).

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd sy'n cynnwys ystadegau a thebygolrwydd
- rhywfaint o brofiad addysgu
- bod yn gyfarwydd â meddalwedd megis MINITAB ar gyfer Windows a pheynnau ar gyfer addysgu a dangos cysyniadau ystadegol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- rhywfaint o brofiad o ddehongli canlyniadau ystadegol.

*Gwybodaeth ychwanegol*

Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno'r aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i wasanaeth TMA/EMA ar-lein y Brifysgol. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, mae'n debygol y bydd tasg cyn y cyfweiliad a rhoddir rhywfaint o gyngor pellach ar farcio electronig. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	6
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5